

Pecyn opsiynau profiad gwaith Gofal, Cyngor Gwynedd.



Croeso

Profiad gwaith o fewn timau Gofal Cyngor Gwynedd.

Diolch am ddangos diddordeb i wneud cyfnod o brofiad gwaith o fewn tîm Gofal, Cyngor Gwynedd.

Mae'r Cyngor yn darparu amryw o wasanaethau gofal i drigolion Gwynedd er mwyn gwarantu bod pobl yr ardal yn cael y gefnogaeth orau bosib yn eu cymunedau, gan warantu bod llesiant, urddas ac annibyniaeth unigolion yn cael eu parchu.

Gellir rhannu gwasanaethau Gofal Cymdeithasol o fewn y Cyngor i adrannau-

- Oedolion, lechyd a Llesiant,
- Anableddau Dysgu a
- Plant a Chefnogi Teuluoedd.

Yn y pecyn yma byddwn yn ymhelaethu mwy ar y adrannau ac yna ar y math o gyfleoedd profiad gwaith sydd ar gael i chi o fewn ein gwasanaethau.

Byddwch yn derbyn cefnogaeth lawn wrth gwblhau eich profiad gwaith gyda ni. Efallai bydd gofyn yn achlysurol i chi gwblhau oriau anghymdeithasol ar benwythnosau neu gyda'r nos fel rhan o'ch profiad.

Wedi i chi ddarllen y pecyn yma, gofynnwn yn garedig i chi gwblhau'r ffurflen gais gyda mwy o fanylion amdan eich hun a pam hoffech chi gwblhau eich profiad gyda ni. Gofynnwn yn garedig i chi restru tri profiad gwaith fel bod modd i ni leoli chi yn y lleoliad mwyaf addas. Gofynnwn yn garedig i chi hefyd warantu bod eich athro neu diwtor profiad gwaith yn cwblhau'r ffurflen tystlythyr a 'u gyrru hefo'i gilydd i gofalu@gwynedd.llyw.cymru

Gellir cael manylion pellach am y Cyngor a'n gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ar ein gwefan www.gwynedd.llyw.cymru



Oedolion, Iechyd a Llesiant

Mae'r adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn darparu amryw o wasanaethau Gofal Cymdeithasol i drigolion y sir sydd angen cyngor, gwybodaeth, cymorth neu ofal oherwydd anghenion penodol.

Mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn darparu nifer fawr o wasanaethau gwahanol i gefnogi trigolion Gwynedd. Canran bach ond pwysig iawn o'r gwasanaethau a ddarperir ydi ein cartrefi preswyl, gwasanaethau dydd a gofal cartref. Amcan ein gwasanaethau mewnol yw darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i alluogi, cefnogi a hyrwyddo pobl i fyw bywydau bodlon ac mor annibynnol ag sy'n bosib. Bydd yr adran yn canolbwyntio ar fywyd y defnyddiwr, gan gynnig gwasanaeth hyblyg, gwbl 'berson canolig' ac wedi ei selio ar ansawdd ac emosiwn. Bydd yr adran yn hyrwyddo'r unigolion sydd yn defnyddio'r gwasanaeth i gael llais, rheolaeth a dewisiadau dros eu bywydau eu hunain ac o'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn.

Nod yr adran ydi galluogi oedolion Gwynedd i: 'Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw.'



Cartrefi Preswyl

Agored i unrhyw un 16+



Gofalwn
.cymru

WeCare
.wales

Mae gan y Cyngor 11 o gartrefi preswyl ar draws y sir y gallwch gwblhau cyfnod o brofiad gwaith ynddynt. Mae'r cartrefi wedi'u gwasgaru ar draws y sir fel â chanlyn;

- Plas Hafan, Nefyn
- Plas Y Don, Pwllheli
- Plas Gwilym, Penygroes
- Plas Maesincla, Caernarfon
- Plas Pengwaith, Llanberis
- Plas Ogwen, Bethesda
- Plas Hedd, Bangor
- Bryn Blodau, Llan Ffestiniog
- Cefn Rodyn, Dolgellau
- Llys Cadfan, Tywyn
- Hafod Mawddach, Bermo.

Allan o'r 11 cartref uchod mae un cartref, Plas Maesincla, yn gartref ar gyfer unigolion sydd angen gwasanaeth dementia dwys yn unig gyda rhannau o Lys Cadfan, Bryn Blodau, Plas Hedd a Phlas Hafan yn cynnig y gwasanaeth yma. Bydd Hafod Mawddach hefyd yn cynnig y gwasanaethau hyn yn y dyfodol agos.

Wrth gwblhau eich profiad gwaith yn un o gartrefi'r cyngor byddwch yn cael profiadau amrywiol gan gynnwys..

- Cyfle i ddatblygu sgiliau pobl a rhyngweithio wrth ddod i adnabod y defnyddwyr, datblygu perthynas a bod yn ffrind.
- Helpu unigolion 'da chi'n gefnogi i barhau gyda diddordebau oes er enghraifft helpu i drefnu gweithgareddau megis bingo i drigolion y cartref.
- Cefnogi preswylwyr y cartrefi wrth iddynt ymgymryd mewn gweithgareddau megis garddio a choginio yn y cartref.
- Rhoi cyfle i chi fod yn greadigol a defnyddio eich sgiliau celf neu sgiliau cerddorol i feddwl am weithgareddau i ddiddanu'r preswylwyr gan ddechrau prosiectau yn y cartref.
- Gwellu dealltwriaeth o egwyddorion gweithio mewn gofal.

Tai Gofal Ychwanegol

Agored i unrhyw un 16+



Mae Hafod y Gest yn gynllun tai gofal ychwanegol a ddatblygwyd yn 2018 gan Grŵp Cynefin mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd. Mae'r cynllun yn darparu gwasanaethau tai, cymorth a gofal i bobl dros 55 oed.

Mae Hafod y Gest yn cynnig opsiwn o fyw'n annibynnol modern i bobl hŷn mewn a hynny mewn amgylchedd cyfforddus a diogel. Mae gan y cyfleuster hwn ymdeimlad o ysbryd cymunedol - gyda chyfleoedd cymdeithasu ar gael i gyd wrth fyw yn eich cartref eich hun.

Bydd tenantiaid yn gallu parhau i fyw'n annibynnol yn un o 40 o fflatiau hunangynhaliol, gyda'r sicrwydd bod gofal a chymorth wrth law 24 awr y dydd, os oes angen. Mae gan bawb anghenion cefnogi gwahanol, felly bydd pecynnau gofal a chymorth yn cael eu teilwra'n unigol i sicrhau bod pob unigolyn yn Hafod Y Gest yn derbyn y lefel o gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Bydd tîm gofal profiadol yn hyrwyddo byw'n annibynnol tra'n parchu urddas, preifatrwydd a dewis unigolion.

Lleolir Hafod Y Gest ym Mhorthmadog.

Wrth gwblhau eich profiad gwaith yn ein Tai Gofal Ychwanegol byddwch yn cael profiadau amrywiol gan gynnwys..

- Cyfle i ddatblygu sgiliau pobl a sgiliau rhyngweithio wrth i chi ddod i adnabod yr unigolion, datblygu perthynas a dod yn ffrind iddynt.
- Bydd cyfle i gefnogi pobl wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol a'u helpu i gynnal eu hannibyniaeth.
- Ennill gwell dealltwriaeth o egwyddorion gweithio mewn gofal.
- Bod yn rhan allweddol o rai o'r gweithgareddau sy'n digwydd yn Hafod Y Gest

Therapi Galwedigaethol

Oedran i'w gytuno gyda'r gwasanaeth. Rhaid i unigolyn fod yn oleiaf 16 oed.



Nod Therapi Galwedigaethol (Occupational Therapy) yw gwella gallu person i wneud tasgau bob dydd os yw unigolyn yn wynebu anawsterau.

Mae Therapyddion Galwedigaethol yn gweithio gyda phobl o bob oed i edrych ar bob agwedd o fywyd bob dydd yn eu cartref, ysgol neu weithle. Mae nhw yn edrych ar weithgareddau rydych chi'n eu cael yn anodd ac yn gweld a oes ffordd arall y gallwch chi eu gwneud. Yn aml byddant yn gwneud asesiadau ar unigolion sydd yn dod adref o'r Ysbyty er enghraifft, gan weld pa addasiadau sydd angen gwneud i'r cartref i fyw bywyd cyfforddus e.e. rhoi stairlift mewn, trefnu bod cadair olwyn ar gael ayyb.

Mae nifer o dimau Therapi Galwedigaethol yng Ngwynedd sydd yn gwasanaethu oedolion, plant ac unigolion hefo anableddau dysgu ar draws y sir. Gallwn leoli chi gyda thîm yn yr ardal fwyaf cyfleus i chi.

Wrth gwblhau eich profiad gwaith gyda'r tîm Therapi Galwedigaethol byddwch yn cael profiadau amrywiol gan gynnwys;

- Cyfle i gysgodi, os yn addas, ystod o asesiadau a gynhelir i hybu annibyniaeth ac adfer.
- Cynnal asesiadau ar gyfer darparu offer addas, a gwneud addasiadau addas i'r cartref.
- Cynnal asesiadau i ddarparu'r offer symud a thrin addas a darparu hyfforddiant hefyd.
- Ennill dealltwriaeth o beth yw Therapi Galwedigaethol, sut mae'n gweithio yn y gymuned a blas ar y cyd-weithio gyda thimau ieuchyd.
- Cyfle i ddeall sut mae gweithio fel rhan o Dîm Amlddisgyblaethol.

Gwaith Cymdeithasol

Oedran i'w gytuno
gyda'r gwasanaeth.
Rhaid i unigolyn fod
yn oleiaf 16 oed.



Mae Gweithwyr Cymdeithasol yn gwneud gwahaniaeth i fywydau unigolion a'u teuluoedd gan eu helpu i fyw eu bywydau yn fwy llwyddiannus.

Fel Gweithiwr Cymdeithasol byddwch yn gweithio hefo pobl i ddarganfod datrysiadau i'w problemau. Gall hyn olygu rhoi llais i unigolion, amddiffyn pobl fregus rhag niwed a chefnogi pobl i fyw yn annibynnol. Mae nifer o dimau Gwaith Cymdeithasol gwahanol o fewn y Cyngor gan gynnwys - timau plant, timau oedolion, timau anabledd dysgu a thîm iechyd meddwl.

Oherwydd natur y gwaith a dwyster rhai achosion bydd profiadau gwaith ar gael yn y timau oedolion os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn Weithiwr Cymdeithasol;

- Tîm Anabledd Dysgu
- Tîm Oedolion 18 oed +

Mae'r timau yma yn gweithredu ar draws y sir gyda thimau yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau. Gallwn leoli chi gyda thîm yn yr ardal fwyaf cyfleus i chi.

Wrth gwblhau eich profiad gwaith efo'r tîm Gwaith Cymdeithasol byddwch yn cael profiadau amrywiol gan gynnwys;

- Cwblhau rhaglen o gysgodi ac arsylwi gweithwyr cymdeithasol wrth eu gwaith
- Cynnal asesiadau gydag unigolion yn eu cartref neu ysbyty ac weithiau yn ymweld â chartrefi gofal neu ganolfannau dydd.
- Os yn addas cyfle i gysgodi ar ymweliadau
- Cyfle i gael trosolwg o'r gwasanaeth a gweld beth sy'n bwysig ar ran cynllunio i gwrdd anghenion gofal a chefnogaeth.

Tîm Llesiant

Rhaid bod yn 16+ i
gwblhau y
profiad gwaith yma.



Mae Tîm Llesiant Cyngor Gwynedd yn arwain prosiectau sydd yn cynnig gwaith ataliol yn y maes gofal yn y gobaith i leihau'r pwysau sydd ar y sector gofal. Mae amrywiaeth o fewn y tîm gan gynnwys prosiectau sydd yn cefnogi unigolion sydd yn byw gyda dementia, gofalwyr di-dal, gofalwyr ifanc, pontio'r cenedlaethau a gwaith i wneud Gwynedd yn sir sy'n oed gyfeillgar. Prif bwrpas y tîm Llesiant yw gwella ansawdd bywyd drwy gysylltu pobl. Caiff hyn ei wneud drwy gynlluniau sydd â'r elfennau canlynol yn ganolog iddynt:

- Pwyslais ar fod yn gymdeithasol a chymunedol (lleihau unigrwydd)
- Hybu iechyd a lles positif a
- Hyrwyddo cydweithio gyda phobl a rhwng pobl.

Mae'r tîm Llesiant wedi dod ynghyd i gynnig profiad gwaith lle gallwch gael blas ar waith tîm Dementia Actif Gwynedd, Pontio'r Cenedlaethau a Llesiant. Bydd y lleoliad yma yn rhoi darlun cynhwysfawr o beth mae'r tîm Llesiant yn gynnig i drigolion Gwynedd. Mae'r tîm Llesiant yn gweithredu ar brosiectau amrywiol dros y sir.

Wrth gwblhau eich profiad gwaith yn y tîm yma byddwch yn cael profiadau amrywiol gan gynnwys..

- Ymuno â'r dosbarthiadau gweithgaredd corfforol - cwrdd â sgwrsio ag aelodau Dementia Actif a chymryd rhan yn y gweithgareddau.
- Cael profiad o ddosbarthiadau Cadw'n Heini ar-lein gydag aelodau Dementia Actif & chartrefi preswyl y Cyngor.
- Mynychu sesiwn gwybodaeth Ffrindiau Dementia - i godi ymwybyddiaeth a dysgu ychydig mwy am ddementia.
- Ennill profiad o fynychu sesiwn pontio'r cenedlaethau gan weld gwerth y gwaith ar bobl hŷn ag iau. Er enghraifft sesiynau crefft neu de pawns.
- Cyd-weithio gyda swyddog prosiect gofalwyr ifanc trwy fynychu sesiynau gwybodaeth i ysgolion a chyfarfodydd.
- Mynychu prosiectau cymunedol ar gyfer cynyddu hyder pobl hŷn i ail gymdeithasu fel rhan o waith Gwynedd Oed Gyfeillgar.

Anableddau Dysgu

Mae'r gwasanaethau Anableddau Dysgu yn disgyn o dan adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

Pwrrpas y gwasanaethau yw cyfarch a hyrwyddo anghenion llesiant unigolion ag anabledd dysgu. Boed hynny'n anghenion corfforol, emosiynol, meddyliol neu gymdeithasol. Bydd angen sicrhau bod y gwasanaethau yn cyfarch be sy'n bwysig i unigolion ag anabledd dysgu a'u gofalwyr.

Er mwyn sicrhau bod anghenion unigolion yn cael eu cyfarch yn llawn, bydd ystod eang o'n gwasanaethau'n aml yn cael eu cynnig mewn partneriaeth. Gall hyn fod yn gefnogaeth i fyw yn annibynnol, cefnogaeth allan yn y gymuned, neu lawer mwy.

Mae'r gwasanaethau Anabledd Dysgu yn canolbwyntio ar ddarpariaeth sy'n cynnig cyfleoedd i gymdeithasu a chynnal perthnasoedd. Mae ffocws ar ddatblygu gwasanaethau cymunedol drwy'r hybiau lleol a chynnig gwasanaethau sydd yn cael eu harwain gan yr unigolion a'u gofalwyr.

Mae'r maes Anableddau Dysgu mor amrywiol. Mae'n gyfle i fagu profiad a sgiliau i wella eich dealltwriaeth ar sut i gefnogi unigolion hefo anghenion cymhleth a dwys. Mae sgôp mawr i ddatblygu yn y maes.



Cynnig Arfon Anabledau Dysgu

Rhaid bod yn 16+ i
gwblhau y
profiad gwaith yma.



Mae rhai o dimau Anabledau Dysgu ardal Arfon wedi dod ynghyd i gynnig profiad gwaith ar draws nifer fawr o'u gwasanaethau. Wrth ddewis cwblhau'r profiad gwaith yma cewch gyfle i gael profiad yn ein gwasanaethau Anabledau Dysgu ar draws ardal Gaernarfon gan gynnwys...

- Hybiau cymunedol amrywiol gan gynnwys Hwb Heli, Cynllun Cymunedol Arfon, Y Felin Glynllifon a Hwb Arfon.
- Allan yn y gymuned leol yn helpu gyda gwaith cefnogol.
- Helpu yn siop Galwch Acw yn Gaernarfon gan gefnogi unigolion i greu eitemau a hefyd helpu gyda rhediad dydd i ddydd y siôp.

Mae'r timau yn gweithio gyda'i gilydd i gyrraedd yr un nod sef i gefnogi'r unigolion i gael llais, rhoi dewis iddynt ac eu helpu i fod yn rhan o'u cymunedau lleol drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae lluo o weithgareddau, gweithdai a phrosiectau yn cael eu cynnal i gefnogi y gwaith yma gan gynnwys sesiynau celf, Canfod y gân, Doniau Cudd, Makaton a llawer iawn mwy. Maent yn cyd-weithio er mwyn rhoi y gefnogaeth orau bosib i'r unigolion yma.

Wrth gwblhau eich profiad gwaith yma byddwch yn cael profiadau amrywiol gan gynnwys..

- Hybu cyfleoedd ac ansawdd bywyd unigolion
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden er enghraifft - beicio, nofio, bowlïo neu trampolinio
- Cael gwell darlun o sut i gefnogi unigolion yn eu cymuned
- Helpu unigolion efo sesiynau celf, coginio, cerdd, crefftau a garddio
- Cefnogi gofal personol i unigolion.

Llwybrau Llesiant

Rhaid bod yn 16+ i
gwblhau y
profiad gwaith yma.



Pwrrpas Llwybrau Llesiant yw darparu ystod eang o wasanaethau a gweithgareddau sy'n ymateb i anghenion unigolion gydag anableddau dysgu'r sir. Rhan allweddol o'r gwaith yma felly ydi cynnal sesiynau i hybu llesiant positif corfforol, emosiynol a chymdeithasol unigolion. Mae'r tîm Llwybrau Llesiant wedi cael eu rhannu yn ddau dîm;

- Gogledd Gwynedd - Arfon, Ogwen a Dyffryn Nantlle
- De Gwynedd - Dwyfor, Meirionnydd ac Eifionydd

Mae'r ddau dîm yn gweithio tuag at yr un nod sef i feddwl am les yr unigolion ac i gyflwyno cyfleoedd cymdeithasol iddynt gan drefnu llu o weithgareddau gan gynnwys - teithiau cerdded, clybiau garddio, cwis, teithiau beics. Mae llu o weithgareddau a chefnogaeth ar gael i'r unigolion yma.

Wrth gwblhau eich profiad gwaith yn y tîm yma byddwch yn cael profiadau amrywiol gan gynnwys..

- Cyfle i gael trosolwg o'r gwasanaeth a'u blaenoriaethau gwaith o fewn Anableddau Dysgu ar ran datblygu'r gwasanaeth i gwrdd anghenion unigolion a gofalmwr.
- Treulio amser yn yr hybiau, bod yn rhan o'r gweithgareddau amrywiol a'r grwpiau sy'n cael eu trefnu
- Trosolwg o'r broses asesu gweld be sy'n bwysig ar ran cynllunio i gwrdd anghenion gofal a chefnogaeth.

Cartrefi Preswyl Anabledd Dysgu

Rhaid bod yn 16+ i
gwblhau y
profiad gwaith yma.



Mae gan y Cyngor ddau Gartref Preswyl Anabledd Dysgu yn y sir y gallwch gwblhau cyfnod o brofiad gwaith ynddynt;

- Cartref Tan Y Marian, Morfa Garreg, Pwllheli
- Cartref Frondeg, Maesincla, Caernarfon.

Mae'r gwasanaeth yma yn cael ei ddarparu ar gyfer unigolion fyddai efallai yn cael anhawster byw yn annibynnol ac felly yn chwilio am rywle fydd yn cynnig diogelwch, rhyngweithio cymdeithasol, cefnogaeth a chymorth parhaus.

Wrth gwblhau eich profiad gwaith yn un o'r cartrefi yma byddwch yn cael profiadau amrywiol gan gynnwys..

- Cefnogi unigolion i fyw bywyd actif ac ystyrlon gan gynnal a datblygu eu sgiliau a meithrin rhai newydd.
- Cefnogi'r unigolion hefo tasgau o ddydd i ddydd fel coginio, glanhau, golchi dillad, steilio gwalltiau, ayyb i hyrwyddo eu hannibyniaeth a'u hurddas.
- Cyflwyno'r preswylwyr i brofiadau cymdeithasol gwahanol a'u helpu i fod yn rhan o'u cymuned leol drwy weithgareddau megis clybiau garddio clybiau coginio, mynd i'r llyfrgell, trip i'r caffi a llawer iawn mwy..
- Rhoi cyfle i chi fod yn greadigol a defnyddio eich sgiliau celf neu sgiliau cerddorol i feddwl am weithgareddau i ddiddanu'r preswylwyr gan ddechrau prosiectau yn y cartref.
- Datblygu sgiliau cyfathrebu, diogelu, gweithio mewn tîm a dysgu sut i ddilyn cynllun personol unigolion.

Hybiau Cymunedol

Rhaid bod yn 16+ i
gwblhau y
profiad gwaith yma.



Mae gan y gwasanaeth Anabledd Dysgu hybiau cymunedol ar draws y sir. Hwb cymunedol yw'r term defnyddiwyd ar gyfer lleoliad ble mae unigolion gydag anableddau dysgu yn derbyn cyfleoedd dydd, cael cyfleoedd i fynychu digwyddiadau cymdeithasol a dysgu sgiliau newydd mewn ffordd sydd yn agored i'r gymuned.

Mae'r hybiau yn rhan bwysig iawn o ethos y gwasanaeth, ac yn ffordd o integreiddio gwasanaethau gyda'r gymuned ehangach gan greu cysylltiadau a pherthnasoedd gwerthfawr gyda thrigolion a sefydliadau. Dyma'r hybiau lle gallwch wneud cyfnod o brofiad gwaith ynddynt;

- Canolfan Y Gwystl, Y Ffôr, Pwllheli
- Canolfan Dolfeurig, Dolgellau.

Wrth gwblhau eich profiad gwaith yn un o'r hybiau yma byddwch yn cael profiadau amrywiol gan gynnwys..

- Helpu datblygiad gwasanaethau newydd e.e. Pryd ar glud
- Helpu yn y gegin ar brosiectau megis Popty prysur
- Helpu'r criw i arddio yn yr ardd - mae tatws y Gwystl yn enwog!
- Defnyddio eich sgiliau celf a chrefftio yn y sesiynau crefft
- Cymryd rhan a helpu mewn gweithgareddau allan yn y gymuned
- Cynnig cefnogaeth i unigolion hefo gofal personol.

Cyfleoedd ochr arlwyo

Rhaid bod yn 16+ i gwblhau y profiad gwaith yma.



Ydych chi yn hoffi coginio? Astudio arlwyo yn yr Ysgol neu yn y Coleg neu awydd troi hobi'n swydd? Eisiau swydd lle allwch chi neud gwir wahaniaeth? Mae gan y gwasanaeth Gofal amryw o gyfleoedd mewn ceginau ar draws y sir. Mae'r ceginau yma yn rhan bwysig iawn o'n gwasanaethau ni er mwyn sicrhau fod unigolion yn cael y maeth cywir i barhau i fyw eu bywydau yn llawn. Wrth weithio yn un o'r ceginau byddwch yn gweithio yn uniongyrchol efo pobl - yn paratoi prydau iddynt ac weithiau yn cynnal gweithgareddau megis gwneud cacen i ddiddanu'r defnyddwyr.

Dyma'r ceginau lle gallwch wneud cyfnod o brofiad gwaith ynddynt;

- Cartref Preswyl Plas Hafan, Nefyn
- Cartref Preswyl Plas Y Don, Pwllheli
- Cartref Preswyl Plas Gwilym, Penygroes
- Cartref Preswyl Plas Maesincla, Caernarfon
- Cartref Preswyl Plas Pengwaith, Llanberis
- Cartref Preswyl Plas Ogwen, Bethesda
- Cartref Preswyl Plas Hedd, Bangor
- Cartref Preswyl Bryn Blodau, Llan Ffestiniog
- Cartref Preswyl Cefn Rodyn, Dolgellau
- Cartref Preswyl Llys Cadfan, Tywyn
- Cartref Preswyl Hafod Mawddach, Bermo.
- Cartref Preswyl Anableddau Dysgu Tan Y Marian, Morfa Garreg, Pwllheli
- Cartref Preswyl Anableddau Dysgu Fron Deg, Maesincla, Caernarfon.
- Cegin Arfon, Caernarfon

Wrth gwblhau eich profiad gwaith yn un o'r ceginau yma byddwch yn cael profiadau amrywiol gan gynnwys..

- Dysgu mwy am anghenion dietegol unigolion
- Cael cyfle i berffeithio eich sgiliau coginio parod, dysgu ryseitiau newydd a chynnig rhai newydd
- Cymryd rhan ym mywyd dydd i ddydd y gwasanaeth a helpu efo gweithgareddau pan fo angen.

Plant a Chefnogi Teuluoedd

Mae'r adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn darparu amryw o wasanaethau gofal cymdeithasol i drigolion y sir. Pwrpas yr adran yw sicrhau fod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael eu diogelu rhag niwed; yn profi sefydlogrwydd yn eu bywyd ac yn cael y cyfleoedd gorau o ran eu hiechyd a'u lles.

Mae'r adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn darparu nifer fawr o wasanaethau gwahanol i gefnogi ieuenctid Gwynedd. Mae'r adran yn gweithio o fewn 3 haen o angen; ymyrraeth gynnar, anghenion gofal a chefnogaeth - diogelu a gofal a thimau arbenigol. Canran bach o beth mae'r adran yn gynnwys ydi gwasanaeth blynyddoedd cynnar, uned diogelu ac ansawdd a gwasanaeth ieuenctid.

Yng Ngwynedd rydym yn credu y dylai pob plentyn a pherson ifanc gael y cyfle i gyrraedd eu llawn botensial. Rydym yn cydnabod bod plant yn datblygu orau pan maent yn cael eu cefnogi i dyfu a llwyddo o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau. Rydym hefyd yn cydnabod bod cynnig ymyrraeth yn gynnar yn hanfodol er mwyn helpu plant a'u teuluoedd i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys.





Mae Derwen, y Tîm Integredig Plant Anabl, yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc 0 - 18 oed yng Ngwynedd ac yn darparu cefnogaeth arbenigol i blant ag amhariad neu oediad yn eu datblygiad, sydd yn anabl neu â gwaeledd. Maent yn gwneud hynny drwy gynnig cyngor a gwybodaeth ac asesiadau cychwynnol.

Maent yn cynnig amryw o weithgareddau i blant ar ôl Ysgol, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau Ysgol yn enwedig. Mae'r gweithgareddau yma yn amrywio o ddyddiau allan, sesiynau crefftiau, sesiynau hwyl, chwarae a datblygu i enwi dim ond ychydig mae'r gwasanaeth yn gynnig. Wrth gwblhau eich profiad gwaith yma allwn warantu ni fydd yr un diwrnod yr un peth.

Mae cynnig i chi ddod ar brofiad gwaith yma er mwyn cael blas ar weithio hefo plant. Er mwyn cwblhau eich lleoliad gwaith yn y tîm yma mae gofyn i chi fod yn berson brwdfrydig, egniol, hwylus, creadigol, sydd yn hoffi plant, efo hynny rhaid hefyd fod yn amyneddgar.

Mae Derwen yn gweithredu ar draws y sir, felly mae cyfleoedd ar gael i chi yn:

- Ardal Arfon, gyda'r swyddfa wedi'i leoli yng Nghaernarfon
- Ardal Dwyfor, swyddfa wedi'i leoli ym Mhwllheli
- Ardal Meirionnydd, swyddfa wedi'i leoli yn Nolgellau.

Wrth gwblhau eich profiad gwaith efo tîm Derwen byddwch yn cael profiadau amrywiol gan gynnwys..

- Helpu i gynllunio a chynnal gweithgareddau
- Dysgu sut i ryngweithio hefo plant.
- Helpu gyda datblygiad plentyn gan gynnwys helpu nhw i fagu hyder.

Meithrinfa

Rhaid bod yn 16+ i
gwblhau y
profiad gwaith yma.



Mae gwasanaeth blynyddoedd cynnar adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn ceisio gwneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant o dan 4 oed. Maent yn gwneud hynny drwy gefnogi darpariaethau addysg feithrin, datblygu'r sector gofal plant a chwarae, a darparu pecynnau rhiantu i helpu teuluoedd Gwynedd i fagu plant iach, hapus a diogel. Maent hefyd yn darparu pecynnau o gefnogaeth fwy dwys mewn ardaloedd penodol o Wynedd drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg.

Fel rhan o'r gwaith mae gan y Cyngor feithrinfa ei hunain yng Nghaernarfon, sef Plas Pawb yn ardal Maesincla. Mae cynnig i chi ddod ar brofiad gwaith yma er mwyn cael blas ar weithio hefo plant. Er mwyn cwblhau eich lleoliad gwaith yn y feithrinfa mae gofyn i chi fod yn berson sydd llawn hwyl, egni, creadigrwydd, empathi a bod yn eithaf amyneddgar.

Wrth gwblhau eich profiad gwaith ym meithrinfa Plas Pawb byddwch yn cael profiadau amrywiol gan gynnwys..

- Helpu i gynllunio a chynnal gweithgareddau e.e. gweithgareddau cerddorol a chelf a chrefft.
- Dysgu sut i ryngweithio hefo plant.
- Bod yn rhan o'u datblygaeth - helpu hefo eu sgiliau rhifedd a llythrennedd drwy gemau.

Sut i ymgeisio

Fel y gwelwch o'r pecyn yma mae gan y sector Gofal Cymdeithasol lawer o opsiynau gyrfaol i'w gynnig. Beth am ddod atom ni am gyfnod o brofiad gwaith i gael blas ar y math o waith sydd ar gael ac i gael cip olwg o weithio yn y sector?

I ymgeisio am brofiad gwaith, gofynnwn yn garedig i chi gwblhau'r ffurflen gais gyda mwy o fanylion amdan eich hun a pham hoffech chi gwblhau profiad gwaith gyda ni. Cofiwch mai'r adran datganiad cefnogi cais yw'r adran bwysicaf o'ch cais. Mai'n bwysig ymhelaethu yma am eich profiadau blaenorol, eich sgiliau, eich gwerthoedd a'ch gobeithion gyrfaol ar gyfer y dyfodol.

Gofynnwn yn garedig i chi restru tri lleoliad gwaith fel bod modd i ni leoli chi yn y lleoliad mwyaf addas. Gofynnwn i chi roi manylion llawn fel yr enghraifft isod;

1. *Cartref Preswyl Plas Hafan, Nefyn*
2. *Cartref Anabledd Dysgu Frondeg, Caernarfon*
3. *Therapi galwedigaethol, Pwllheli*

Rydym hefyd yn disgwyl i'ch athro/tiwtor profiad gwaith i gwblhau ffurflen tystlythyr, i'w ddychwelyd nôl yr un pryd a'ch ffurflen gais.

Efallai bydd y fideos astudiaethau achos o unigolion sydd eisoes yn gweithio yn y sector Gofal Cymdeithasol yn eich helpu i wneud penderfyniad. Gallwch wyllo rhain ar [wefan Gofalwn Cymru](#).

Edrychwn ymlaen at gael chi draw i'n gwasanaeth ar brofiad gwaith hefo ni. Unrhyw gwestiynau plis e-bostiwch; gofalu@gwynedd.llyw.cymru

